# Fforwm y Cadeiryddion

## COVID-19 a phwyllgorau'r Cynulliad: Taflen ffeithiau

Dyddiad cyhoeddi: 8 Ebrill 2020

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi gwybodaeth i gadeiryddion pwyllgor, aelodau pwyllgor a rhanddeiliaid am sut y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar fusnes pwyllgorau yn y Cynulliad.

## A yw pwyllgorau'n cyfarfod?

Ar hyn o bryd, **nid yw pwyllgorau'n cyfarfod**.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i'r pwyllgorau beidio â chyfarfod ar hyn o bryd, gyda disgwyliad y bydd y pwyllgor llai, sef Senedd Frys yn ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor hanfodol, gan gynnwys craffu ar Weinidogion Cymru a deddfwriaeth hanfodol.

Y rheswm am mwyn yw sicrhau diogelwch aelodau pwyllgor, staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach, yn seiliedig ar y cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf.

## Pryd fydd pwyllgorau'n cyfarfod eto?

**Bydd busnes arferol yn ailddechrau cyn gynted ag y bo'n ddiogel i hynny ddigwydd.**

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl darparu amserlen union ar gyfer hyn, gan y bydd yn dibynnu ar epidemioleg COVID-19, a hyd yr ymdrechion presennol i reoli'r feirws.

Yn dilyn cyfarfod llwyddiannus o bell y Senedd Frys ar 1 Ebrill 2020, mae Comisiwn y Cynulliad wrthi'n treialu ystod o ddulliau technolegol i alluogi cyfarfodydd pwyllgorau o bell a'r gobaith yw y bydd hyn yn golygu y gellir cynnal cyfarfodydd pwyllgor yn ddiogel yn y dyfodol.

Trafododd y Pwyllgor Busnes hyn yn ei gyfarfod ar 3 Ebrill 2020. Gan y cynhelir cyfarfodydd rhithwir y Pwyllgor Busnes a'r Cyfarfod Llawn yn

llwyddiannus, gofynnwyd i swyddogion y Cynulliad ddarparu papur i amlinellu'r busnes hanfodol sy'n debygol o ddod i'r pwyllgorau a sut y gellid hwyluso hyn. Bydd y Pwyllgor Busnes yn trafod hyn yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill 2020.

Fel rhan o'r newidiadau gweithdrefnol cychwynnol a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r Cynulliad eisoes wedi cymryd camau i alluogi pwyllgorau i gyfarfod heb y cyhoedd yn bresennol a heb ofynion darlledu, mewn rhai amgylchiadau. Os oes angen addasiad gweithdrefnol arall i alluogi pwyllgorau i weithio o bell, bydd y Pwyllgor Busnes yn trafod hyn.

Yn ogystal ag arloesedd technolegol a gweithdrefnol, bydd angen trafod adnoddau staff Comisiwn y Cynulliad i gefnogi cyfarfod o bell yn sgil yr heriau ychwanegol y mae'r amgylchiadau presennol wedi'u creu, e.e. posibilrwydd cyfraddau salwch a chyfrifoldebau gofalu uwch. Mae'r Pwyllgor Busnes yn awyddus i weithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i sicrhau y gellir cefnogi trefniadau cyfarfod yn y dyfodol ac nad ydynt yn gosod galw afresymol neu anghynaliadwy ar staff.

## Beth am waith pwyllgor sy'n cael ei wneud y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor?

**Efallai y bydd rhywfaint o waith yn bosibl, ond mae'n debygol y bydd nifer o ffactorau'n cyfyngu arno.**

Nid oes cyfyngiad ffurfiol ar weithgarwch pwyllgor sy'n cael ei wneud y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor, e.e. casglu tystiolaeth, cyhoeddi gohebiaeth a chyflwyno adroddiad.

Fodd bynnag, mae analluedd pwyllgorau i gyfarfod ar hyn o bryd yn debygol o gyfyngu ar eu gallu i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn.

Yn ogystal, bydd angen i bwyllgorau ystyried sut y gall eu gweithgarwch effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i ymateb i COVID-19. Mae cyfyngiadau presennol y llywodraeth a'r posibilrwydd y bydd cyfraddau absenoldeb uwch hefyd yn debygol o roi pwysau ar y rhai yr hoffai pwyllgor ymgysylltu â hwy.

Yn y pen draw, pob cadeirydd pwyllgor unigol sy'n penderfynu a ddylid ymgymryd â gweithgarwch y tu allan i gyfarfod pwyllgor.

Mae rhai pwyllgorau wedi cytuno i gael sesiynau briffio amserol rheolaidd ar ddatblygiadau yn eu meysydd cyfrifoldeb fel eu bod yn barod i ddychwelyd i fusnes yn gyflym, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Bydd y Pwyllgor Busnes yn trafod sut y gellir hwyluso gwaith pwyllgorau yn y dyfodol, yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill 2020. Bydd diweddariad arall yn dilyn y cyfarfod hwn.

## A fydd y Cynulliad ar doriad dros y Pasg?

Bydd, ar gyfer y Pasg eleni bydd y Cynulliad ar doriad o 9 tan 21 Ebrill 2020.

Yn ystod yr wythnosau a ddechreuodd ar 30 Mawrth a 6 Ebrill 2020, parhaodd y Cynulliad i gyfarfod (er o bell) ar ffurf Senedd Frys arbennig, yn hytrach na dechrau cyfnod y toriad a drefnwyd yn wreiddiol.

Y rheswm am hyn oedd sicrhau bod pobl Cymru yn parhau i gael eu cynrychioli ar adeg mor hanfodol, bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn atebol am y penderfyniadau arwyddocaol mae’n eu gwneud mewn perthynas â COVID-19, ac y gallai cyfreithiau hanfodol gael eu pasio neu eu symud ymlaen.

Ar 3 Ebrill 2020, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gael toriad rhwng 9 ac 21 Ebrill 2020, pan ellir defnyddio trefniadau adalw os bydd amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyfarfod.

## Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif os nad yw pwyllgorau’n cyfarfod?

Mae'r Senedd Frys wedi rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif wrth i drefniadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor o bell gael eu trafod ymhellach.

## Beth am waith craffu pwyllgorau ar Filiau a deddfwriaeth arall?

**Bydd gwaith craffu ar ddeddfwriaeth hanfodol yn parhau. Mae'r manylion am sut y bydd hyn yn gweithio'n cael eu datblygu.**

### Gwaith craffu ar Filiau

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ailflaenoriaethu ei rhaglen ddeddfwriaethol.

Trafodwyd manylion y gwaith ailflaenoriaethu hwn â'r Pwyllgor Busnes, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniadau terfynol eto.

Y tebygrwydd yw y bydd gwaith craffu ar rai Biliau yn cael ei ohirio fel y gellir canolbwyntio ymdrechion ar y Biliau sy'n flaenoriaeth ym marn y Llywodraeth.

Bydd yr opsiynau ar gyfer gwaith craffu manwl ar y Biliau sydd â blaenoriaeth, ar ôl eu nodi, yn cael eu trafod. Gallai'r opsiynau gynnwys defnyddio technoleg cyfarfod o bell ar gyfer pwyllgorau, os bydd ar gael, neu reoli'r cyfnodau diwygio drwy'r Cyfarfod Llawn.

Gwneir trefniadau i Aelodau'r Cynulliad gyflwyno gwelliannau o bell. Gall aelodau ddisgwyl cael y cymorth y maent wedi arfer ag ef wrth ddrafftio gwelliannau i Filiau, er o bell.

### Offerynnau Statudol

**Bydd y swyddogaethau yr ymgymerir â hwy fel arfer gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â chraffu ar offerynnau statudol yn cael eu hatal dros dro, gyda mecanwaith craffu diwygiedig yn gweithredu drwy'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.**

Bydd y dadansoddiad cefndir a'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan swyddogion y Cynulliad yn cael eu darparu i'r Cynulliad wrth ymgymryd â'r swyddogaethau hyn.

## Cydsyniad deddfwriaethol

**Mae'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol yn parhau i fod yn gymwys a bwriad Llywodraeth Cymru yw dilyn y confensiwn drwy osod memoranda cydsyniad deddfwriaethol a chyflwyno cynigion cydsyniad deddfwriaethol pan fo angen.**

Bydd y Pwyllgor Busnes yn trafod a ddylid cyfeirio memoranda cydsyniad deddfwriaethol i bwyllgor graffu arnynt fesul achos.

Gwasanaethau Pwyllgor
Ebrill 2020

*Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth:*
*julian.luke@cynulliad.cymru*